

## Rhan 1

# Crynodeb Gweithredol<sup>1</sup>

*Hyd yn hyn mae Côt Darlledu Ofcom wedi gwahardd lleoliad cynnyrch. Roedd y gwaharddiad hwn yn seiliedig ar ofynion deddfwriaeth Ewropeaidd. Bellach mae newidiadau i gyfraith UE a diwygiadau yn deillio o hynny mewn deddfwriaeth DU, yn caniatáu gosod cyfeiriadau at gynnyrch, gwasanaethau neu nodau masnach mewn rhaglenni teledu yn gyfnewid am dâl.*

*O ganlyniad i'r newidiadau hyn, bwriadwn addasu'r Côt i gael gwared ar waharddiad ar leoliad cynnyrch. Mae'r ymgynghoriad hwn felly yn nodi rheolau newydd arfaethedig sydd yn adlewyrchu deddfwriaeth newydd DU sydd yn galluogi lleoliad cynnyrch mewn rhaglennu teledu.*

*Mae cyflwyniad lleoliad cynnyrch yn effeithio ar reoliad mathau eraill o gyfeiriadau masnachol yn ystod rhaglennu teledu, fel nawdd. Rydym felly yn cynnig diwygiadau hefyd i'r rheolau hynny a ystyriwn sydd yn cael eu heffeithio gan leoliad cynnyrch.*

## Cyflwyniad

- 1.1 O dan y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") mae'n ofynnol i Ofcom lunio, ac o dro i dro, diwygio côd ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, yn cynnwys safonau mewn rhaglenni, nawdd a thegwch a phreifatrwydd. Gelwir y côd hwn yn Gôt Darlledu Ofcom ("y Côt") a daeth i rym ar 25 Gorffennaf 2005<sup>2</sup>, yn dilyn ymgynghori cyhoeddus ac ymchwil helaeth yn ystod 2004.
- 1.2 Yn Adroddiad Blynyddol 2008/09 ymrwymodd Ofcom i adolygu'r Côt ac ystyried a oedd yn parhau i adlewyrchu'r defnyddwyr, y diwydiant a'r amgylcheddau rheoleiddiol. Wrth ymateb i'r ymrwymadau hyn ym Mehefin 2009 lansiodd Ofcom ei Ymgynghoriad ar Adolygiad o'r Côt Darlledu<sup>3</sup>
- 1.3 Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn cynigiodd Ofcom reolau diwygiedig yn berthynol i: amddiffyn y rhai dan ddeunaw oed; niwedd a thrangwydd; a nawdd a chyfeiriadau masnachol mewn rhaglennu.
- 1.4 Drafftwyd y rheolau'n ymwneud â nawdd a chyfeiriadau masnachol a gynigiwyd yn 2009 yng ngoleuni gwaharddiad maith y DU ar leoliad cynnyrch (h.y. cynnwys cyfeiriadau at gynnyrch a gwasanaethau mewn rhaglenni yn gyfnewid am dâl) a oedd yn bodoli ar adeg yr adolygiad.
- 1.5 Ym mis Medi 2004 cyhoeddodd y Llywodraeth ei fod yn ystyried, yn amodol i ymgynghori, caniatáu lleoliad cynnyrch mewn mathau penodol o raglenni teledu, gyda rhai cyfyngiadau.
- 1.6 Yn dilyn y datganiad hwn cyhoeddodd Ofcom ei fod yn mynd i ymestyn ei adolygiad o Adrannau Naw a Deg o'r Côt er mwyn caniatáu iddo gymryd i ystyriaeth, nid yn unig canlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth ar leoliad cynnyrch, ond hefyd oblygiadau ehangach potensial unrhyw newid yn y maes

<sup>1</sup> Gweler y rhestr eurfra yn Atodiad 5 ar gyfer ystyron y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.

<sup>2</sup> Mae'r Côt wedi'i ddiwygio wedi hynny yn Hydref 2008 a Rhagfyr 2009 2009

<sup>3</sup> <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/main.pdf>

hwn ar reolau eraill yn ymwneud â chyfeiriadau masnachol mewn rhaglennu teledu (e.e. rheolau'n ymwneud â nawdd).

- 1.7 Yn Rhagfyr 2009 cyhoeddodd Ofcom Gôd wedi'i ddiweddarau<sup>4</sup> yn cynnwys rheolau diwygiedig yn ymwneud ag amddiffyn y rhai dan ddeunaw oed a niwed a thramgwydd.
- 1.8 Yn dilyn ymgynghoriad y Llywodraeth, cyhoeddwyd datganiad<sup>5</sup> yn nodi ei fwriad i ddeddfu i ganiatáu lleoliad cynnyrch, yn amodol i rai cyfyngiadau. Daeth y Rheoliadau (Lleoliad Cynnyrch) Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol 2010 ("y Rheoliadau"), yr offeryn statudol sydd yn diwygio'r Ddeddf i alluogi lleoliad cynnyrch ar deledu, i rym ar 16 Ebrill 2010. Mae'r diwygiadau i'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod safonau mewn perthynas â lleoliad cynnyrch.
- 1.9 Diben yr ymgynghoriad hwn felly yw cynnig rheolau newydd i ganiatáu lleoliad cynnyrch yn y genre rhaglenni a ganiateir ac i esbonio pryd na chaiff lleoliad cynnyrch ei ganiatáu. Rydym hefyd yn cynnig diwygiadau i reolau sydd eisoes yn bodoli yr ystyriwn sydd yn cael eu heffeithio arnynt, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, gan y penderfyniad i ganiatáu cyfeiriadau masnachol y telir amdanynt mewn rhaglenni teledu.
- 1.10 Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriadau masnachol sydd ar raglennu teledu yn unig. Mae ymgynghoriad ar wahân wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chyfeiriadau masnachol mewn rhaglennu radio<sup>6</sup>.

### Trosolwg o'n cynigion

- 1.11 Mae'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau) yn cynnwys nifer o ofynion penodol mewn perthynas â rheoleiddio lleoliad cynnyrch. Mae'n ofynnol bellach i Ofcom addasu ei Gôd er mwyn gweithredu'r gofynion hyn.
- 1.12 Mae'r Ddeddf yn enwi'r genre rhaglenni hynny lle y caniateir lleoliad cynnyrch: ffilmiau; cyfresi teledu; rhaglenni chwaraeon; a rhaglenni adloniant ysgafn. Ond, mae'n gwahardd lleoliad cynnyrch ym mhob rhaglen plant ac mewn rhaglenni crefyddol; materion cyfoes; a rhaglenni materion defnyddwyr a gynhyrchir dan awdurdodaeth DU<sup>7</sup> 1.1 .
- 1.13 Mae'n gwahardd lleoliad cynnyrch sigarêts neu gynnyrch tybaco eraill a meddyginiaethau rhagnodi'n unig ar bob rhaglen, ac mae ymhellach yn gwahardd lleoliad cynnyrch a dalwyd amdanynt mewn rhaglenni a gynhyrchir dan awdurdodaeth DU cynnyrch sydd yn gysylltiedig gydag ysmegu (fel tanwyr a phapurau sigarét), diodydd alcoholig, bwydydd sydd yn uchel mewn

---

<sup>4</sup> <http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/>

<sup>5</sup> [http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/minister\\_speeches/6624.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/minister_speeches/6624.aspx)

<sup>6</sup> <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcrradio2010/>

<sup>7</sup> Mae "rhaglenni a gynhyrchir dan awdurdodaeth DU" yn golygu unrhyw raglen a gynhyrchir neu a gomisiynir gan nail ai a) darparwyd y gwasanaeth rhaglen deledu neu unrhyw berson sydd yn gysylltiedig gyda'r darparwyd hwnn (ac eithrio y nachos ffilm a wneir ar gyfer y sinema); neu b) unrhyw berson arall gyda golwg ar ei dangos am y tro cyntaf ar wasanaeth rhaglen deledu o dan awdurdodaeth DU (i ddbenion Cyfarwyddeb AVMS). Am ragor o fanylion am y gofynion hyn a'u hystyron, gweler Rhan 4.

braster, halen neu siwgr, gwasanaethau gamblo, holl gynnyrch meddyginiaethol a fformiwlâu babanod a fformiwlâu sydd yn dilyn hynny.

- 1.14 Mae'n gosod gofynion a mesurau diogelwch cyffredinol mewn perthynas â'r effaith y gall lleoliad cynnyrch ei gael ar raglenni. Mae hefyd yn nodi pryd y dylid gwneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol bod lleoliad cynnyrch mewn rhaglen.
- 1.15 Mae'r rheolau yr ydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn felly yn adlewyrchu'r gofynion hyn gan ddarparu canllaw pellach lle yr ystyriwn fod hynny'n briodol.
- 1.16 Yn ogystal ag adlewyrchu'r gofynion a nodir uchod mewn rheolau yn y Côd, rydym yn cynnig rheolau ychwanegol a ystyriwn sydd yn: i) egluro gofynion y Ddeddf; neu ii) yn briodol i sicrhau bod digon o amddiffyniad i'r cynulleidfaoedd; neu iii) yn briodol yng ngoleuni'r newidiadau i'r tirwedd rheoleiddiol yn deillio o gyflwyniad lleoliad cynnyrch.
- 1.17 I grynhoi, dyma yw ein cynigion:

#### Lleoliad Cynnyrch

- 1.18 **Cwmpas rheolau lleoliad cynnyrch:** Mae'r Ddeddf yn diffinio lleoliad cynnyrch fel rhywbeth sydd 'i ddiben masnachol'. Rydym yn bwriadu cymhwysu'r rheolau i bob achos o leoliad y telir amdano, os yw'r lleoliad wedi'i fwriadu i wasanaethu diben masnachol ai peidio ( gweler Rhan 4, Cynnig 1).
- 1.19 **Dramâu sengl:** ni chyfeirir yn benodol at y rhain yn y rhestr o genre rhaglenni lle y caniateir lleoliad cynnyrch. Rydym yn bwriadu esbonio bod rhaglenni o'r fath yn syrthio o fewn y diffiniad o ffilmiau a gallant felly gynnwys lleoliad cynnyrch (gweler Rhan 4, Cynnig 2).
- 1.20 **Newyddion:** nid yw'r Ddeddf yn gwahardd lleoliad cynnyrch mewn newyddion ond mae'r Llywodraeth wedi'i gwneud yn glir yn ei datganiad nad yw newyddion yn syrthio o fewn y genre rhaglenni lle y caniateir lleoliad cynnyrch. Rydym felly yn cynnig rheol i esbonio bod lleoliad cynnyrch wedi'i wahardd mewn rhaglenni newyddion (gweler Rhan 4, Cynnig 3).
- 1.21 **Lleoliad thematig:** rydym yn bwriadu esbonio bod lleoliad thematig - hynny yw creu sgriptiau/straeon fel cyfryngau i'r diben o ddangos nodau, amcanion, credoau neu fuddiannau cyllidwr trydydd parti - yn waharddedig (gweler Rhan 4, Cynnig 4).
- 1.22 **Rhaglenni ffeithiol arbenigol:** rydym yn gofyn am farn a ddylai Ofcom wahardd lleoliad cynnyrch mewn rhaglenni ffeithiol arbenigol ai peidio (e.e. rhaglenni cwbl ffeithiol addysgol, gwyddonol, meddygol neu gelfyddydol, neu'r rhai sydd yn ymchwiliol eu natur) (gweler Rhan 4, Cynnig 5).
- 1.23 **Gwasanaethau/cynnyrch cyfyngedig gwaharddedig :** yn ogystal â'r cynnyrch, gwasanaethau a nodau masnachol hynny sydd wedi'u gwahardd dan y Ddeddf rhag cael eu cynnwys mewn rhaglenni o ganlyniad i drefniadau lleoliad cynnyrch, rydym yn bwriadu gwahardd lleoliad cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach y talwyd amdano na ellir eu hysbysebu ar deledu mewn rhaglenni (gweler Rhan 4 Cynnig 6).

- 1.24 **Arwyddo lleoliad cynnyrch:** rydym yn cynnig bod cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r adegau lle mae lleoliad cynnyrch yn digwydd trwy gyfrwng logo niwtral cyffredinol, ac arwydd clyw cyffredinol (i sicrhau bod aelodau o'r gynulleidfa gyda nam golwg a chlyw yn ymwybodol pan fo rhaglen yn cynnwys lleoliad cynnyrch). Hefyd rydym yn cynnig bod darlledwyr yn darparu rhestr i'r gynulleidfa (mewn credydau ar ddiwedd rhaglen neu ar wefan y darlledwr) o gynnyrch, gwasanaethau neu nodau masnach sydd wedi'u gosod mewn rhaglen. Rydym hefyd y gwneud amrediad o gynigion mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o arwyddion lleoliad cynnyrch a'r hyn y maent yn ei olygu (gweler [Rhan 4, Cynnig 7](#)).

#### Nawdd

- 1.25 Mae'r rheolau cyfredol sydd yn berthnasol i nawdd teledu yn seiliedig ar yr egwyddor bod cyfeiriadau masnachol y telir amdanynt yn cael eu cadw ar wahân i'r golygyddol. Mae cyflwyniad lleoliad cynnyrch yn newid y sefyllfa hon. Rydym felly yn ymgynghori ar y diwygiadau arfaethedig i'r rheolau nawdd hynny a ategir gan yr egwyddor gwahanu.
- 1.26 **Cyfeiriadau noddwr mewn rhaglenni nawdd:** Mae'r Ddeddf yn cynnwys amodau tynnu sylw ar gyfer lleoliad cynnyrch. Rydym yn bwriadu cael gwared ar y rheolau sydd yn atal trefniadau nawdd yn esgor ar gyfeiriadau at y noddwr mewn rhaglen nawdd. Rydym hefyd yn bwriadu esbonio, lle mae cyfeiriad at gynnyrch, gwasanaethau neu nod masnach noddwr mewn rhaglen, caiff hyn ei drin fel lleoliad cynnyrch a rhaid iddo felly gydymffurfio gyda'r rheolau perthnasol (gweler [Rhan 5, Cynnig 8](#)).
- 1.27 **Nodi trefniadau nawdd (credydau nawdd<sup>8</sup>):** rydym yn cynnig diwygiadau ar sut y cyhoeddir trefniadau nawdd i sicrhau bod aelodau o'r gynulleidfa yn ymwybodol wrth iddynt wyllo negeseuon masnachol ac yn gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o drefniadau masnachol, fel nawdd a lleoliad cynnyrch (gweler [Rhan 5, Cynnig 9](#)).
- 1.28 **Credydau nawdd yn ystod rhaglenni:** rydym hefyd yn bwriadu newid y rheolau ar gredydau nawdd i ganiatáu darlledu credydau yn ystod rhaglenni. Ond, er mwyn sicrhau nad yw credydau o'r fath yn gwrthdaro gyda rheolau lleoliad cynnyrch ac nad ydynt yn ymyrraeth annerbyniol, rydym yn cynnig nifer o gyfyngiadau ar gynnwys ac amserlennu credydau a ddangosir yn ystod rhaglenni (gweler [Rhan 5, Cynnig 10](#)).

#### Diwygiadau arfaethedig eraill

- 1.29 Rydym yn cynnig diwygiadau i reolau eraill y Côd a ystyriwn nad ydynt bellach yn berthnasol yn dilyn cyflwyniad lleoliad cynnyrch, sef:
- 1.30 **Gwahanu rhaglennu a hysbysebu:** mae rheolau cyfredol yn seiliedig ar egwyddor arch fwaol bod rhaid cadw cynnwys golygyddol ar wahân i hysbysebu. Mae'r rheolau'n seiliedig ar ofynion deddfwriaeth Ewropeaidd (gweler y ddeddfwriaeth berthnasol isod). Mae newidiadau i gyfraith UE yn golygu nad oes rhaid gwahanu hysbysebu bellach oddi wrth y golygyddol ond rhaid i'r ddau fod yn *wahanol* i'w gilydd. Rydym felly'n cynnig addasu'r

---

<sup>8</sup> Credydau nawdd yw cyhoeddiadau'n hysbysu'r gynulleidfa pan fo rhaglen wedi'i noddi, a chan bwy.

rheolau hynny sydd yn galw am wahanu i rai sydd yn galw am wahaniaethu rhwng cynnwys o'r fath. Rydym hefyd yn bwriadu addasu'r egwyddor gyfatebol a nodir yn y Côd (gweler Rhan 6, Cynigion 12 a 13).

- 1.31 **Rheol hysbysebu cudd:** rydym yn cynnig rheol sydd yn gwahardd hysbysebu cudd gan ein bod yn ystyried bod cyflwyno lleoliad cynnyrch, ac felly cynnwys cyfeiriadau y telir amdanynt mewn rhaglenni, yn creu risg pellach y gall gwylwyr fod yn destun hysbysebu cudd (gweler Rhan 6, Cynnig 14)
- 1.32 **Hysbysebu rhithwir:** mae hyn yn digwydd yn ystod darlledu digwyddiad ac mae'n golygu disodli hysbysebu sydd yn bresennol mewn lleoliad gyda hysbysebu wedi'i deilwra ar gyfer cynulleidfa deledu. Mae rheol benodol yn y Côd cyfredol am yr ymarfer hwn. Mae cael gwared ar y gwaharddiad hwn yn gwneud y rheol yn ddiangen ac felly rydym yn cynnig cael gwared ohono o'r Côd (gweler Rhan 6, Cynnig 15)

### Meysydd perthnasol o ddeddfwriaeth

- 1.33 Mae Rhan 3 o'r ddogfen hon yn amlinellu dyletswyddau Ofcom a meysydd eraill o ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys, yn arbennig, adrannau 319(2)(fa), (i) a (j) a 319(4)(a), (c), (e) a (f), adran 321(1) a (4) ac adran 324(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003; Erthyglau 9, 10, 11, a Phennod VII (Erthyglau 19 i 26) o'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol; rheoliad 3(4)(d) o Reoliadau Amddiffyn Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008; adran 21(1) o Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000; paragraff 3 Ddeddf Rheoliadau Argymhelliad Buddsoddi (Cyfryngau) 2005; ac Erthygl 10 o Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

### Ymagwedd tuag at Asesiad Effaith

- 1.34 Nid oes dogfen asesiad effaith ar wahân yn y ddogfen ymgynghori. Yn hytrach, mae'r ddogfen ymgynghori gyfan yn asesu effaith y newidiadau arfaethedig ar randdeiliaid (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr, a darlledwyr teledu). Mae'r asesiad wedi'i lywio gan yr ymatebion i'r Adolygiad Côd 2009, ein trafodaethau cyn ymgynghori 2010 gyda rhanddeiliaid ac ymgynghoriad diweddaraf y Llywodraeth ar leoliad cynnyrch<sup>9</sup>.
- 1.35 Ymhellach, nid yw'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys asesiadau o effeithiau potensial y rheolau lleoliad cynnyrch hynny y mae Ofcom yn eu hystyried yn ofynion uniongyrchol y Ddeddf, y mae'n ddyletswydd statudol ar Ofcom i'w gweithredu yn y Côd. Lle mae gan Ofcom gwmpas i benderfynu rhwng gwahanol ffyrdd o weithredu polisi, mae ystyriaethau mewn perthynas ag effeithiau defnyddwyr, rheoleiddiol ac economaidd yn cael eu trafod yn Rhannau 4 i 6 o'r ddogfen hon.
- 1.36 Mewn perthynas â chydaddoldeb, mae'n ofynnol i Ofcom yn ôl statud i dalu sylw dyladwy i unrhyw effeithiau potensial y gallai ei gynigion eu cael ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhyw, yn ogystal ag ar grwpiau eraill sydd

<sup>9</sup> Ceir crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad y Llywodraeth ar leoliad cynnyrch yn: [http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.culture.gov.uk/images/consultation\\_responses/Consultation\\_Report\\_final.pdf](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.culture.gov.uk/images/consultation_responses/Consultation_Report_final.pdf)

wedi'u diogelu gan ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon<sup>10</sup>. I gyflawni'r rhwymedigaeth hon, rydym wedi cwblhau ffurflen sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb (yn amgaeedig yn Atodiad 11), sydd ar ffurf dadansoddiad cychwynnol i weld a yw'r cynigion yr ydym yn eu gwneud yn codi materion cydraddoldeb, ac os felly, beth yw eu heffeithiau potensial.

- 1.37 Ar ôl gorffen yr ymgynghoriad ac ystyried ymatebion rhanddeiliaid, byddwn yn adolygu, ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd gan rhanddeiliaid, a oes effeithiau cydraddoldeb mewn gwirionedd ac/neu ystyriaethau nad ydym hyd yn hyn wedi rhoi ystyriaeth iddynt. Pe byddem yn darganfod tystiolaeth i gefnogi hyn byddwn yn mynd ati i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn. Bydd ein datganiad cyhoeddedig yn cynrychioli casgliad y broses ymgynghori hon yn nodi a wnaeth Ofcom gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ai peidio ac os felly, y casgliadau o'r asesiad hwnnw. Bydd ystyriaethau o'r fath hefyd yn llywio ein diwygiadau terfynol o'r Côt.

## Canllaw

- 1.38 Oherwydd y bydd lleoliad cynnyrch yn ymarferiad newydd mewn rhaglenni a gynhyrchir neu a gomisiynir gan drwyddedai Ofcom, rydym yn bwriadu cyhoeddi canllaw ychwanegol i gynorthwyo darlledwyr. Bydd hyn yn cyd-fynd gyda'r Côt diwygiedig ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr ag ef, fel diweddariad i'r canllaw cyfredol<sup>11</sup>. Yng ngoleuni'r amgylchiadau hyn, rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar feysydd neu faterion penodol y byddent yn croesawu arweiniad Ofcom arnynt. Wrth i'r farchnad lleoliad cynnyrch gael ei sefydlu, caiff y canllaw hwn ei adolygu'n rheolaidd.

## Y camau nesaf

- 1.39 Mae'r rhannau canlynol o'r ddogfen yn nodi ein cynigion ac yn gwahodd barn rhanddeiliaid arnynt. Wrth ymateb i'r cwestiynau i rhanddeiliaid, gweler Rhan 3 os gwelwch yn dda sydd yn nodi amcanion rheoleiddiol a dyletswyddau statudol Ofcom. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ein galluogi i ystyried ein cynigion yng ngoleuni sylwadau rhanddeiliaid. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a datganiad mewn ymateb pan gyhoeddir y Côt diwygiedig.
- 1.40 Dylai rhanddeiliaid nodi nes bod Ofcom yn cyhoeddi ei Ddatganiad a'i Gôt diwygiedig, yn dilyn dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn, bydd y Côt cyfredol yn parhau mewn grym.

---

<sup>10</sup> Yn ychwanegol at hil, anabledd a rhyw, mae deddfwriaeth cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, gofalwyr, statws priodasol, cred crefyddol a barn wleidyddol.

<sup>11</sup> <http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/guidance/bguidance/>